

Cofnodion cyfarfod 14/1/19

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Cadeirydd, Tyly Roberts a derbyniwyd ymddiheuriadau Emyr Jones; roedd croeso arbennig croeso i'r aelod newydd, Clwyd Davies a diolchwyd iddo am gymryd y cyfrifoldeb o fod yn Gyngorydd Cymuned dros Ward Y Glyn.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 6ed 2018.

5. Materion y Clerc:

- a. Hysbysfwrdd Glyn a Rhos – dywedodd Gwyn Roberts y byddai'n cael ei osod pan fyddai'r tywydd yn caniatáu. Diolchwyd iddo am wneud y gwaith.
 - b. Golau yn y ciosg: cytunwyd i ofyn i drydanwr edrych pan nad oedd y golau'n dod ymlaen yn rheolaidd. Mae safle Carafanwyr Pantyronnen wedi sicrhau cyllid ar gyfer cronfa cynnal y ciosg.
 - c. Y Comisiwn Ffiniau – adroddodd y Clerc fod y Comisiwn ffiniau wedi anfon barn y Cyngor at Lywodraeth Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
 - d. Ceisiadau am gymorth ariannol - atgoffwyd yn garedig o'r angen i geisiadau (yn cynnwys mantolenni) ddod i law cyn diwedd mis Chwefror.
6. Derbyniwyd adroddiad Tyly Roberts ar sefyllfa'r Triathlon. Roedd wedi derbyn neges yn ystod y prynhawn yn manylu ar gynllun rheoli traffig ar gyfer mynediad lleol ar hyd ffordd Llangywer a gytunwyd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd mewn cyfarfod arbennig. Yng ngoleuni'r wybodaeth newydd hon, ac yn amodol ar dderbyn yr wybodaeth yn swyddogol gan British Triathlon, cytunwyd i gefnogi'r Triathlon ar gyfer 2019. Bydd arfarniad o'r digwyddiad ym mis Medi ac fe fydd ystyriaeth o unrhyw gais yn y dyfodol yn amodol ar lwyddiant rheoli trafndiaeth yn ystod Triathlon 2019. Cytunwyd mai cau o 2.00 i 7.00pm ar y dydd Sadwrn fyddai orau, yn hytrach nag yn y bore neu ar ddau gyfnod yn y bore a'r prynhawn. Cytunodd Tyly Roberts i barhau i gynrychioli Cyngor Cymuned Llangywer ar bwyllgor lleol y Triathlon.
 7. Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir. Roedd Cyngor Gwynedd yn ymddiheuro fod gyrrwr newydd wedi anghofio'r côd ar gyfer y safle casglu sbwriel yn Llangywer ac felly roedd un casgliad wedi ei fethu. Dywedodd fod trafodaethau'n digwydd am y clawdd o flaen Fach Ddeiliog sy'n tyfu i'r ffordd. Coed wrth bont Rhosygwaliau - adroddodd fod y rhain wedi eu tocio a diolchwyd i Gyngor Gwynedd am wneud y gwaith drannoeth y cais. Mae'r bont - sydd wedi ei chofrestru - wedi cael ei harchwilio gan beiriannydd ac fe fydd ef yn cysylltu gyda Parc Cenedlaethol Eryri i drafod y gwaith trwsio yn dilyn y gwrthdrawiad a'r gwaith cryfhau o ganlyniad i bwysau'r loriau yn cario coed. Bydd gwaith clirio eiddew yn cael ei wneud yr un pryd.

Biniau cymunedol safle picnic Dolwen Isaf - adroddodd Alan Jones Evans y bydd bin cymunedol a ffrâm ar gyfer tybiau ail-gylchu yn cael eu gosod yno. Diolchwyd i'r Cyngorydd am drefnu hyn.

8. **Pwyllgor Cyllid:** Cynhaliwyd Pwyllgor Cyllid a chytunodd y Cyngorwyr unwaith eto i beidio a chodi'r Praesept.
9. **Cynnal a chadw'r fynwent 2019** - cytunwyd i gael 2 doriad ar y pris a gynigiwyd; os bydd cyllid yn caniatáu fe ellid torri unwaith yn ychwanegol. Rhaid aros tan ar ôl i Glychau'r Gog ddarfod cyn gwneud y toriad cyntaf, gan fod y rhain yn rhywogaeth sy'n cael eu gwarchod.
10. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:** mae'n debyg fod biniau halen Llangywer wedi eu llenwi, ond dim rhai Rhosygwaliau. Cytunodd y Cyngorydd i holi am hyn ac i geisio rhestr o leoliadau'r biniau yn y ddwy ward.
Cytunodd hefyd i dynnu sylw'r swyddogion at garreg sydd wedi symud ar bont Llangywer.
Cytunodd i holi a oes modd arafu trafndiaeth trwy Langywer.
Adroddwyd fod ffos wedi tagu wrth bont y trê'n bach a bod dŵr yn croesi'r ffordd; unwaith eto cytunodd y cyngorydd i drafod hyn gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a diolchwyd iddo am ei waith.
11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad W D Williams. Cyhoeddodd fod Angharad ab Iorwerth yn trefnu diwrnod agored ar 21 o fis Chwefror ar gyfer asiantaethau sydd yn ymwneud â'r henoed. Anogodd pawb i droi mewn rhwng 10.00am â 2.00pm i weld beth sydd ar gael.

12. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cadarnhawyd ymgynghoriad ffôn /sgwrs ar geisiadau:

NP5/70/9L – cais am garej ar dir gyferbyn a Phlas Gywair - gwrthwynebu

NP5/70 /41V datblygiad Pen y Garth -gwrthwynebu

Cyngor Gwynedd: Cynhelir ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai – gweler

www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

Llywodraeth - ymgynghoriad ar drafndiaeth gyhoeddus: cytunwyd i'w adael ar y bwrdd.

Llythyr Cylich yr Iaith ar effaith twristiaeth ar y Gymraeg: cytunwyd i'w adael ar y bwrdd.

13. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 25/2/19 yn Neuadd Llangywer

Amser gorffen: 9.05pm

.....CadeiryddClerc